Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Cwestiynau Penodol ar gyfer Rownd 3

Cwestiwn	Ateb
Ymgeisio ac Arweiniad	
Sut ydw i'n cael gafael ar ffurflen ymgeisio?	Bydd Rownd 3 y Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael ei lansio ar 25 Tachwedd 2010. Mae nodiadau arweiniad ar gael ar ein gwefan - www.cronfaloterifawr.org.uk. Ar ôl darllen y nodiadau arweiniad, os hoffech dderbyn ffurflen ymgeisio, gallwch lawrlwytho un o'n gwefan yn www.cronfaloterifawr.org.uk
Beth yw'r gwahaniaeth rhwng canlyniadau'r rhaglen ac egwyddorion y rhaglen?	Canlyniadau'r rhaglen yw'r newidiadau yr hoffem eu gweld yn digwydd o ganlyniad i'n hariannu, a dylai canlyniadau eich prosiect ymdrin â phob un o'r rhain. Yr egwyddorion yw gwerthoedd craidd y rhaglen, sy'n rhan hanfodol o ddatblygu unrhyw brosiect.
Canlyniad rhaglen 4 yw gwella gwaith partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y trydydd sector a sectorau eraill. Beth mae gwaith partneriaeth yn ei olygu i chi?	I gael mwy o wybodaeth am bartneriaethau, cyfeiriwch at y ddogfen 'Gweithio mewn partneriaeth: llyfr ffynhonnell', sydd ar gael ar ein gwefan yn www.biglotteryfund.org.uk/er_eval_working_in_partnership_sourcebook_uk.pdf
Beth mae 'cymuned' yn ei golygu i chi?	Gall cymuned fod yn gymuned o le neu gymuned buddiant. Ni fydd cymunedau o le fel arfer yn fwy nag un awdurdod lleol. Mae cymuned buddiant yn grŵp cydweithredol o bobl sy'n rhannu budd, nod, cenhadaeth neu broses fusnes ar y cyd ac felly ni ellir eu diffinio fesul ardal ddaearyddol benodol. Os yw eich sefydliad yn cynrychioli cymuned fuddiant, mae'n rhaid i chi ddangos sut rydych wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r gymuned leol
Rydych yn gofyn am fanylion cyswllt person priodol o fewn y sefydliad sector cyhoeddus sy'n trosglwyddo'r ased – pwy fyddech chi'n ystyried ei fod yn berson priodol?	Y cyswllt mwyaf priodol fyddai'r person sydd â gwybodaeth uniongyrchol am yr ased a gwybodaeth ymarferol dda am eich prosiect e.e. Pennaeth Eiddo neu Ystadau, Pennaeth Adfywio neu berson tebyg.
Faint o wybodaeth y bydd angen i mi ei darparu fel rhan o'm harfarniad opsiynau?	Dylai eich arfarniad opsiynau fod yn gryno ac yn eich fformat eich hun. Dylai ymdrin â'r meysydd canlynol ar gyfer pob opsiwn a ystyrir: • esboniwch pam rydych wedi dewis yr opsiwn a ffafrir • sut bydd yn ymdrin â'r angen y mae eich

	prosiect yn ceisio'i ddiwallu • sut bydd yn helpu i gyflwyno amcanion, buddion a chanlyniadau'r prosiect • amcangyfrif o'r costau (costau cyfalaf a refeniw) • asesiad risg
Ble gellir cael mwy o wybodaeth am gydraddoldeb?	Rydym wedi datblygu canllaw o'r enw 'Materion Cydraddoldeb', sydd ar gael ar ein gwefan yn y cyfeiriad canlynol: http://www.biglotteryfund.org.uk/equality_matters.pdf
Ble gellir dod o hyd i amodau a thelerau'r grant?	Ceir amodau a thelerau'r grant ar ein gwefan yn www.cronfaloterifawr.org.uk
Faint o fanylion dylid eu darparu ar y cynllun cyflwyno cyfalaf os yw'r prosiect ar gyfer tir yn unig?	Os nad oes unrhyw waith adeiladu'n digwydd, dylid cwblhau'r ffurflen o hyd ond mae'n bosib na fydd nifer o eitemau'n berthnasol. Dylai ymgeiswyr wirio'r mathau amrywiol o ganiatâd (h.y. adeiladu, cynllunio etc) i sicrhau nad ydynt yn berthnasol. Byddwn yn disgwyl gweld gwybodaeth yn cadarnhau y cysylltwyd â'r adrannau perthnasol a'u cadarnhad nad oes angen unrhyw ganiatâd ar gyfer y cynllun arfaethedig.
A fyddai'r Gronfa Loteri Fawr yn derbyn symiau wrth gefn uwch ar brosiect adeiladu cyfalaf os yw hyn wedi'i ddangos mewn asesiad risg?	Byddai, dylid cyflawni asesiad risg ac os bydd yn argymell dyrannu swm wrth gefn uwch, mae hyn yn dderbyniol i'r Gronfa Loteri Fawr.
Ariannu	
Sut bydd y Gronfa Loteri Fawr yn sicrhau fod y gyllideb o £13 miliwn yn cael ei ledaenu dros y dair rownd?	Nid yw'r Gronfa Loteri Fawr wedi pennu cyllideb benodol ar gyfer pob rownd unigol. Fodd bynnag, rydym wedi'n hymrwymo i ddyfarnu grantiau o dan bob un o'r dair rownd.
Faint o ddyfarniadau ydych chi'n debygol o'u gwneud o dan Rownd 3?	Mae Rownd 3 yn broses dau gam. Rhagwelwn wahodd rhwng wyth a deuddeg prosiect i symud ymlaen i gam dau, gyda grant Rownd 3+ yn cael ei ddyfarnu i rhwng pump a naw o'r rhain.
A fydd unrhyw oblygiadau os oes nifer o geisiadau o un ardal awdurdod leol benodol o dan unrhyw rownd ariannu?	Does dim dosbarthiad arian ar sail daearyddiaeth yn Rownd 3. Bydd pob prosiect yn cael ei asesu ar sail ei rinweddau ei hun.
A yw prosiectau sydd heb unrhyw arian gyfatebol yn gymwys i gael eu hariannu?	Ydynt. Gall y Gronfa Loteri Fawr ariannu hyd at 100% o gostau'r prosiect. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr a all arddangos peth arian cyfatebol.
Pwy sy'n gallu darparu arian cyfatebol ac a oes rhaid iddo fod wedi cael ei drefnu cyn i ni	Disgwyliwn i ran o'ch ariannu ddod o ffynonellau ariannu eraill (arian, grantiau, benthyciadau

ymgeisio?	ayyb) neu drwy gyfraniadau mewn da. Caniateir arian cyfatebol gan rai o ffynonellau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag bydd angen i chi drafod hyn yn glir gyda'r adran y mae eich arian yn dod ohoni, gan y gall hyn effeithio ar ganran yr arian cyfatebol a ganiateir. **Ni** chaniateir arian cyfatebol gyda rhaglen Pawb a'i Le'r Gronfa Loteri Fawr. Fodd bynnag, gall dosbarthwyr eraill y Loteri ddarparu arian cyfatebol. Am fwy o wybodaeth gweler www.arianyloteri.org.uk Nid oes angen i arian cyfatebol fod wedi cael ei drefnu yng ngham un y broses ymgeisio. Fodd bynnag bydd angen i chi roi manylion yr ariannu cyfatebol arfaethedig i gadarnhau bod sylw wedi'i roi i bob elfen o'r gyllideb. Bydd angen i chi brofi bod unrhyw arian arall ar gyfer elfen gyfalaf y prosiect wedi'i sicrhau cyn i ni wneud unrhyw daliadau.
Yn gysylltiedig ag arian Ewropeaidd, a all yr arian gan Lywodraeth y Cynulliad gael ei ddosbarthu fel arian 'glân'?	Gall, mae'r elfen o'r arian gan Lywodraeth y Cynulliad yn dod o'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac nid o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Gellir defnyddio arian Ewropeaidd felly fel arian cyfatebol o dan y rhaglen CAT.
Beth all gael ei gyfrif fel cyfraniad mewn da?	Gall cyfraniadau mewn da gynnwys y gwahaniaeth rhwng gwerth marchnad yr ased a'r gost o drosglwyddo. Gall hefyd fod yn amser staff a gwirfoddolwyr, yn cynnwys amser gan y sefydliad sy'n trosglwyddo. Gall amser staff gynnwys unrhyw amser a roddir am ddim i helpu i gefnogi gwaith y prosiect os caiff grant. Ni all amser llunio'r cais gael ei gynnwys gan fod hwn yn ariannu ôl-weithredol.
Pwy fydd yn ffurfio'r pwyllgor penderfynu? A fydd hi'n broses arferol y Gronfa Loteri Fawr neu a fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dylanwadu arni?	Penodwyd y pwyllgor penderfynu yn gyhoeddus gan y Gronfa Loteri Fawr yn ystod gwanwyn 2010. Cadeirir y Pwyllgor, sy'n cynnwys 6 aelod ag ystod o sgiliau sy'n berthnasol i'r rhaglen, gan Mike Theodoulou o Bwyllgor Cymru'r Gronfa Loteri Fawr. Mae arsylwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor.
A yw'n debygol y bydd y rhaglen CAT yn parhau tu hwnt i'r dair rownd?	Bydd y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael ei werthuso. Gan ddibynnu ar hyn a blaenoriaethau'r Gronfa Loteri Fawr a Llywodraeth y Cynulliad i'r dyfodol, byddwn yn

	ystyried y ffordd orau o symud ymlaen gyda'r rhaglen.
A all yr un sefydliad gyflwyno mwy nag un cais?	Gall yr ymgeisydd arweiniol gyflwyno un cais yn unig ym mhob rownd.
Os buom yn llwyddiannus yn y rownd Trywydd Cyflym, a allwn ymgeisio eto yn rownd 3?	Gallwch, gallwch ymgeisio am ased arall fel rhan o brosiect gwahanol o dan rownd 3.
Oes llai o arian ar gael o dan raglenni eraill Llywodraeth y Cynulliad o ganlyniad i'r rhaglen CAT?	Nac oes. Nid yw'r rhaglen CAT wedi effeithio ar raglenni eraill Llywodraeth y Cynulliad. Bydd LlCC yn parhau i ariannu rhaglenni cyfredol megis Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol.
Costau	
Yn ogystal â rhedeg yr ased, pa gostau fyddai'n dod o dan gostau refeniw cymwys?	Mae'r math o weithgareddau y gallai staff ymwneud â nhw o bosib fel rhan o'r gwaith yn cynnwys: • Creu cysylltiadau â'r gymuned i sicrhau bod y gweithgareddau a'r gwasanaethau a gynigir drwy'r cyfleuster yn parhau i adlewyrchu anghenion y gymuned • Denu cefnogaeth gan y gymuned leol, gan gynnwys recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i weithio yn y cyfleuster • Recriwtio budd-ddeiliaid lleol priodol, gan gynnwys arweinwyr busnes a chymunedol, i gymryd rhan wrth lywodraethu'r prosiect • Sicrhau cynaladwyedd hir dymor yr ased drwy, er enghraifft, cynhyrchu incwm, cyflwyno gwasanaethau neu ddatblygu perthnasoedd ariannu gydag unigolion neu gefnogwyr sector cyhoeddus neu breifat.
A all elfen refeniw y grant gael ei wario ar ymgynghorwyr i helpu sefydliadau i ddatblygu eu sgiliau busnes neu reoli?	Gall. Gallwch ddefnyddio'r elfen refeniw o'ch grant ar gyfer hyfforddiant neu i ddod ag arbenigwyr i mewn i'ch helpu gyda datblygu eich gallu. Fodd bynnag, ni fyddwn yn talu am gostau ôl-weithredol ymgynghorwyr sydd wedi eich helpu gyda datblygiad eich prosiect hyd yn hyn yn y rownd trywydd cyflym.
Pam fod yr isafswm lefel o £250k o arian cyfalaf wedi'i phennu?	Mae'r rhaglen CAT yn rhaglen strategol y mae ei nod yw llenwi'r bylchau cyfredol mewn ariannu. Pennwyd y terfynau hyn i osgoi dyblygiad gyda ffynonellau ariannu eraill.
A ellir tynnu arian refeniw i lawr tra bod elfen cyfalaf y prosiect yn parhau?	Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn ariannu prosiectau am hyd am bum mlynedd. Mae'r cyfnod hwn o

	bum mlynedd yn cychwyn o'r funud y mae ymgeiswyr llwyddiannus yn tynnu eu tâl refeniw neu gyfalaf cyntaf i lawr. Gall refeniw gael ei dynnu i lawr ar yr un pryd y mae gwaith datblygu cyfalaf yn cael ei wneud. Am fanylion costau refeniw a chyfalaf cymwys darllenwch y nodiadau arweiniad os gwelwch yn dda.
A fyddai adeiladu estyniad mawr yn gymwys o dan 'gostau adeiladu newydd'? Os byddai, a oes cyfyngiadau ar faint yr estyniad?	Mae estyniad yn gymwys dim ond fel rhan o gynllun mwy lle dangosir ei fod yn rhan hanfodol o'r prosiect ehangach. Caiff hyn ei drafod gyda chi'n unigol.
Ydy costau mynediad i'r anabl yn gymwys fel rhan o'r cais?	Ydynt. Gallwn ariannu'r costau hyn lle maent yn rhan o brosiect ehangach.
Ased	
Beth mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ei ddosbarthu fel asedau?	Adeiladau neu dir yn bennaf. Mae manylion llawn am yr hyn a all gael ei ariannu ar gael yn nodiadau arweiniad y rhaglen.
A yw'n bosib i brosiectau drosglwyddo mwy nag un ased?	Ydy, gall prosiect gynnwys trosglwyddiad mwy nag un ased o fwy nag un sefydliad.
A yw asedau sydd eisoes wedi eu trosglwyddo yn gymwys?	Os oes gennych brydles neu drwydded o lai na 12 mis eisoes rydych am ei throsglwyddo i rydd ddaliad ar gyfer yr un ased, bydd hyn yn gymwys. Os ydych am ymgymryd â phrydles neu rydd ddaliad ased newydd, bydd hwn hefyd yn gymwys. Fodd bynnag, nid yw estyn les tymor byr i les hir dymor ar yr un adeilad yn gymwys o dan y rhaglen hon.
Ydyw adeiladau rhestredig yn gymwys?	Ydynt, ond bydd angen i chi sicrhau bod unrhyw ganiatâd gofynnol yn ffitio amserlen rownd 3 fel a amlinellwyd yn y nodiadau arweiniad.
A all gynaladwyedd hir dymor gael ei arddangos trwy'r sefydliad sector cyhoeddus sy'n trosglwyddo yn ymrwymo i ariannu'r prosiect yn y dyfodol?	Byddai portffolio cymysg o ariannu i'r dyfodol yn cael ei annog. Fodd bynnag, dylai cynhyrchu incwm ffurfio rhan sylweddol ac arwyddocaol o sut y byddwch yn sicrhau cynaladwyedd economaidd.
Ydyw'n dderbyniol bod prisiant yr ased wedi ei ddarparu gan berson sy'n broffesiynol gymwys (h.y. Syrfëwr Siartredig) o fewn y sefydliad sy'n trosglwyddo?	Ydy, mae hyn yn dderbyniol.
Mae ein sefydliad sy'n trosglwyddo wedi dweud wrthym y mynnent fod gwerth llawn yr ased ar y farchnad yn cael ei dalu iddynt. Beth yw ein sefyllfa o ran asesu os bydd hyn yn digwydd?	Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi nodi y bydd yr ymgeiswyr hynny a all ddangos bod eu hasedau wedi'u trosglwyddo am ddim neu ar gyfradd ddisgownt yn cael eu blaenoriaethu yn yr asesiad. Fodd bynnag ni chaiff hyn ei asesu ar ei ben ei hun ond yng nghyd-destun cynllun busnes y prosiect cyfan a thystiolaeth o

	gynaladwyedd economaidd hir dymor. Dylai ymgeiswyr gydweithio'n agos â'r sefydliad sy'n trosglwyddo'r ased ac esbonio holl fanteision trosglwyddo am ddim/gost isel. Bydd angen prisiant annibynnol hefyd i amlygu pa arbedion a geir.
Rydym wedi bod yn datblygu ein prosiect ers nifer o flynyddoedd - pa mor ddiweddar y mae angen i wybodaeth fod ac a ddylem gynnwys yr holl wybodaeth flaenorol sy'n ymwneud â'r prosiect?	Dylid cynnwys yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect heb ystyried pa mor hen y mae. Fodd bynnag, dylai unrhyw ymchwil neu waith ymgynghori a gyflawnwyd fod o fewn graddfa amser resymol i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol i'r prosiect arfaethedig a bod yr angen yn bodoli o hyd yn eich maes arfaethedig. Mae'n bosib y bydd angen diweddaru eitemau adeiladu cyfalaf i sicrhau eu perthnasedd.
Beth sy'n cael ei ystyried yn adroddiad prisio 'cyfredol' ar gyfer tir ac adeiladau?	Oherwydd amrywiadau tebygol a mynych yn y farchnad tir ac adeiladau, nid oes unrhyw derfynau amser penodol o ran yr hyn yr ystyrir ei fod yn brisiant 'cyfredol'. Serch hynny byddem fel arfer yn argymell bod llai na chwe mis wedi mynd heibio ers iddo gael ei wneud. Os nad ydych yn sicr, byddem yn argymell eich bod yn trafod hyn gyda ni ymlaen llaw.
Sut y disgwylir i aelodau'r gymuned gyfrannu at reoli'r ased?	Mae'n rhaid i sefydliadau arweiniol ddangos y bydd y prosiect yn cael ei arwain a'i reoli gan y gymuned, gan gynnwys mewnbwn y gymuned o ran dyluniad yr ased, ac y bydd aelodaeth yn agored i aelodau'r gymuned.
Os oes gan ein prosiect nifer o gamau, a allwn ymgeisio i chi ar gyfer un o'r rhain?	Gallwch, ond dim ond os yw'r cam yn ddichonol fel prosiect ar ei ben ei hun, a heb ddibynnu ar y camau eraill i fod yn llwyddiannus.
Cynllunio	
Pa arweiniad amgylcheddol ynglŷn â chynllunio a dylunio dylai ymgeiswyr gyfeirio ato?	I annog symud tuag at adeiladau mwy cynaliadwy a di-garbon yng Nghymru, dylai ymgeiswyr ystyried cyngor canlynol y llywodraeth lle bo'n bosib: • Polisi Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru • Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (01/09) 'Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy' • Deddf Cynllunio ac Ynni 2008, sy'n galluogi pennu lefelau gofynnol o ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy lleol • Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (01/2008) 'Cynllunio ar gyfer

	Dylunio Da' • Nodyn Cyngor Technegol 12 'Dylunio'. • Building a Greener Future: policy statement (2007) Fe'ch anogir hefyd i ystyried defnyddio Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) i asesu perfformiad amgylcheddol eich prosiect. Ystyrir BREEAM yn gyffredinol fel mesur arfer da mewn dylunio a rheoli amgylcheddol.
A fydd rhaid i'n prosiect gydymffurfio â safon ragorol Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) ar gyfer prosiectau adeiladu newydd?	Mae'n rhaid i'r holl waith adeiladu newydd fodloni safon ragorol BREEAM gan mai gofyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw hwn. Nid yw'n fandadol ar gyfer gwaith adnewyddu ond fe'ch anogir i ystyried defnyddio dull BREEAM wrth asesu perfformiad amgylcheddol eich ased.
Pam mae'n rhaid i brosiectau newydd fodloni safon ragorol BREEAM?	O fis Mawrth 2007, mae'n rhaid i brosiectau adeiladu cyfalaf newydd a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fodloni'r safon hon.
A fydd elfennau ychwanegol (solar) yn cael eu hystyried?	Ni fyddwn yn blaenoriaethu prosiectau sydd ag elfennau ychwanegol (solar). Byddwn yn ystyried y pecyn cyfan o gynaladwyedd amgylcheddol a gynigir (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni).
Cymhwyster	
A yw fy sefydliad yn sefydliad sector cyhoeddus?	Mae'r sector gyhoeddus yn cynnwys llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a corfforaethau cyhoeddus fel y'u diffinnir ar gyfer Cyfrifon Cenedlaethol y DU. Mae rhestrau o'r rhain i'w gweld yn yr Arweiniad Dosbarthiad Sector Cyfrifon Cenedlaethol y DU ar wefan Ystadegau Cenedlaethol. 1) Mae llywodraeth ganolog yn cynnwys pob adran weinyddol y llywodraeth ac asiantaethau canolog eraill a cyrff cyhoeddus anadrannol. 2) Mae llywodraeth leol yn cynnwys pob uned llywodraeth sydd â chylch gwaith lleol. 3) Mae Corfforaethau cyhoeddus yn gwmnïau neu led-gorfforaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan y llywodraeth. At ddiben y rhaglen CAT, caiff Prifysgolion, Colegau a sefydliadau addysg uwch eraill eu dosbarthu fel sector cyhoeddus hefyd.

A all sefydliadau sector cyhoeddus eraill (oni bai am y sefydliad sy'n trosglwyddo) fod yn gysylltiedig â'r prosiect?	Gallant, mae'n bosib iddynt fod yn gysylltiedig â'r prosiect, fel bod yn rhan o'r bartneriaeth sy'n gosod sail y cais.
A all awdurdod lleol drosglwyddo ased i gyngor cymuned?	Ni fyddai hyn yn gymwys o dan y rhaglen gan fod rhaid i'r ased gael ei drosglwyddo o sefydliad sector cyhoeddus i sefydliad trydydd sector. Nid yw cynghorau cymuned yn disgyn o fewn y diffiniad o'r trydydd sector.
Ydy sefydliadau trosglwyddo stoc tai a phrosiectau tai portffolio cymysg yn gymwys?	Ydynt, os yw'r prosiect yn cyfateb i baramedrau'r prosiect. Bydd angen i unrhyw dir gael defnydd terfynol. Bydd angen i adeiladau fod at ddefnydd lluosog ac yn agored i'r gymuned ehangach. Ni fyddwn yn ariannu datblygiadau tai'n unig.
A all ased gael ei roddi gan Gymdeithas Tai?	Na all. Dim ond i dderbyn asedau y bydd Cymdeithasau Tai yn gymwys o dan Rownd 3.
Ydy prosiectau sy'n cyfrannu at hyrwyddo crefydd neu wleidyddiaeth yn gymwys?	Rydym yn disgwyl mai prif ddiben yr ased fydd cyflwyno gweithgareddau y gall y gymuned ehangach elwa ohonynt, nid gweithgareddau neu wasanaethau crefyddol neu wleidyddol.
A all sefydliadau sector preifat ymgeisio o dan y rhaglen hon?	Na allant. Mae'n rhaid i'r sefydliad arweiniol sy'n ymgeisio i'r rhaglen gydweddu â'n diffiniad o sefydliad trydydd sector fel y rhestrir yn y nodiadau arweiniad.
A fydd y Gronfa Loteri Fawr yn gwahardd sefydliad trydydd sector mawr megis yr Urdd?	Na fydd. Fodd bynnag bydd angen i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth o angen a dangos ei fod wedi ymgynghori â chymunedau (daearyddol a buddiant).
A fyddai creu sefydliad cyfreithiol newydd yn dderbyniol o dan y rhaglen CAT?	Byddai, er y byddai angen i chi sicrhau ei fod yn cwrdd â'n ddiffiniad o sefydliad trydydd sector a'i fod yn adlewyrchu y strwythurau cyfreithiol a amlinellwyd yn y nodiadau arweiniad.
A all elusennau sydd heb eu cofrestru ymgeisio i'r Gronfa Loteri Fawr o dan y rhaglen hon?	Mae'n rhaid i ymgeiswyr arweiniol fedru: • cyfateb i'n diffiniad o'r trydydd sector, • cyfateb i'r strwythurau cyfreithiol cymwys sydd wedi'u hamlinellu yn y nodiadau arweiniad a • bodloni ein hamodau a thelerau grant (y gellir dod o hyd iddynt ar wefan y Gronfa Loteri Fawr).
A fydd yna unrhyw flaenoriaeth dros ba sefydliad cymunedol ddylai arwain ar y prosiect?	Mae'r rhaid i'r ymgeisydd arweiniol ffitio o fewn ein diffiniad o'r trydydd sector a strwythurau cyfreithiol cymwys y sefydliadau hyn, fel a amlinellwyd yn y nodiadau arweiniad. Mae'n rhaid i'r prosiect benderfynu pa sefydliad sydd yn y sefyllfa orau, ac felly, yn fwyaf addas i fod

	yn ymgeisydd arweiniol.
Beth yw'r cyfyngiadau cyfreithiol ar gyfer ymrwymiad sector preifat?	Cyhyd â bod digon o ecwiti yn yr ased i sicrhau buddiannau'r holl arianwyr, byddwn ni'n rhoi caniatâd i sefydliad sector preifat gofrestru pridiant cyfreithiol dros deitl yr eiddo er mwyn sicrhau eu buddiant. Y benthycwyr masnachol fydd yn cael blaenoriaeth dros y Gronfa Loteri Fawr a Chynulliad Genedlaethol Cymru.
A yw'n bosib i'r sector preifat gael perchnogaeth ecwiti ar brosiect?	Os yw sefydliad sector preifat wedi benthyca arian i sefydliad ymgeisio ar gyfer y prosiect ac yn dymuno i'r ymgeisydd ei dalu yn ôl (fel banc) yna mae hyn yn iawn. Fodd bynnag, ni all sefydliadau preifat wneud unrhyw elw o unrhyw rai o weithgareddau'r prosiect. Yn y pen draw fodd bynnag, dim ond deiliad y grant all gael budd o'n grant ac ni all sefydliadau er elw y sector preifat fanteisio ar hynny, cael rhan ohono (oni bai wrth gwrs o dan gytundeb partneriaeth), neu felly gael unrhyw ecwiti yn y prosiect.
Fyddwch chi'n ariannu ceisiadau gan sefydliadau sydd eisoes â phrydles ar adeilad arall y maent wedi ei leoli ynddo ar hyn o bryd?	Gall ymgeiswyr arweiniol sydd wedi eu lleoli mewn ased arall ymgeisio i gymryd drosodd prydles neu rydd-ddaliad ased arall. Gall sefydliadau hefyd ymgeisio i gymryd y rhydd-ddaliad drosodd ar ased y maent eisoes wedi eu lleoli ynddo os mai dim ond trefniad prydles sydd ganddynt ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni allant ymgeisio i estyn les ased y maent eisoes mewn trefniad prydles ar ei gyfer.
Rydym yn gweithredu o adeilad sy'n eiddo i'r awdurdod lleol ac mae gennym drwydded ar ei gyfer. Allwn ni ymgeisio i gymryd drosodd y cytundeb prydles?	Byddwn yn adolygu hyn ar sail yr achos unigol. Fel arfer gallwch ymgeisio cyhyd â bod y drwydded am lai na 12 mis ac wedi'i hystyried yn rhan o dreial neu brosiect peilot.
A fydd prydlesi gyda chymalau torri'n dderbyniol?	Ni fyddwn yn derbyn unrhyw brydles sydd â chymal torri o fewn ein cyfnod atebolrwydd asedau o 20 mlynedd.
A fydd arian yn cael ei ryddhau ar gyfer yr ased cyn i'r eiddo gael ei drosglwyddo?	Byddwn yn rhyddhau arian cyn i'r ased gael ei drosglwyddo cyhyd â bod gennym gontract rhwymol ar waith ar gyfer y trosglwyddiad. Bydd angen i'r ased gael ei drosglwyddo o fewn 6 mis ar ôl y dyddiad sy'n ymddangos ar y dystysgrif cwblhau ymarferol.
A all yr ased gael ei drosglwyddo cyn i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â'r grant?	Na all, mae'n rhaid i'r trosglwyddiad ddigwydd ar ôl i ni ddyfarnu'r grant.